OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2017 Rhif 763 (Cy. 183)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffordd yr A40 a'r Ffordd Gyswllt (Cyffordd Travellers' Rest, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Cerbydau a Therfyn Cyflymder 30 MYA Dros Dro) 2017

*Gwnaed* *21 Mehefin 2017*

*Yn dod i rym* *3 Gorffennaf 2017*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar Cefnffordd Llundain i Abergwaun yr A40, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a chyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd a'r ffordd gyswllt oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffyrdd neu gerllaw iddynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 3 Gorffennaf 2017 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 a'r Ffordd Gyswllt (Cyffordd Travellers' Rest, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Cerbydau a Therfyn Cyflymder 30 MYA Dros Dro) 2017.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn:

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (c.32), mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw:

(a) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys; a

(b) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu’r llu awyr ac sy’n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy’n aelod o’r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy’n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau am 00:01 o’r gloch ar 3 Gorffennaf 2017 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y ffordd gyswllt” (“*the link road*”) yw’r darn o’r ffordd gyswllt sy’n cysylltu’r ffyrdd ymadael ac ymuno tua’r dwyrain i’r de-orllewin o drosbont Travellers’ Rest wrth Gyffordd Travellers’ Rest yn Sir Gaerfyrddin;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd Llundain i Abergwaun yr A40 wrth Gyffordd Travellers’ Rest yn Sir Gaerfyrddin;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw’r unedau hynny o’r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

## Cyfyngiad a Gwaharddiad

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o’r gefnffordd a’r ffordd gyswllt a bennir yn Atodlen 1.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darn o’r ffordd gyswllt a bennir yn Atodlen 2.

## Atal Dros Dro

**5.** Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy’n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darn perthnasol o’r ffordd

gyswllt a bennir yn erthygl 2 wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 4 yn weithredol.

**Cymhwyso**

**6.** (1) Ni fydd y cyfyngiadau a'r gwaharddiad yn erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**7.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 21 Mehefin 2017

*Nina Ley*
Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

## ATODLEN 1

## Gwahardd Cerbydau Dros Dro

1. Y darnau o ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r dwyrain cefnffordd yr A40 a'r ffordd gyswllt i drosbont Travellers' Rest sy'n ymestyn o bwynt wrth eu cyffyrdd â phrif gerbytffordd tua'r dwyrain cefnffordd yr A40 hyd at bwynt wrth y gyffordd ag Old Road.

## ATODLEN 2

## Terfyn Cyflymder 30 MYA Dros Dro

2. Y darn o'r ffordd gyswllt sy'n ymestyn o ynys hollti ymuno/ymadael yr A40 tua'r dwyrain hyd at bwynt 200 metr i'r dwyrain o'r gyffordd â'r ffordd gyswllt i Farchnad Da Byw Caerfyrddin.